# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel
Nos Fawrth, Tachwedd 2il 2022 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Sarnau.

Presennol: Maldwyn Jones (cadeirydd), Eifion Davies, Bethan Thomas, Alwyn Jones, , Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Rita Jones, Dewi Pritchard, Gary Thomas, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Iolo V. Evans a Gwenda Morris.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Hydref 4ydd 2022) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Mynwentydd - **roedd gwaith ar giatiau mynwent Llandderfel wedi cael ei gwblhau. Cytunwyd i greu cynllun a cheisio am grantiau i wneud gwelliannau pellach i'r mynwentydd e.e. llwybrau, hysbysfwrdd, clirio glaswellt mynwent Llanfor.**
c) Cynllun Bioamrywiaeth 2022-25 - **trafodwyd syniadau ar gyfer datblygu'r cynllun. Cytunwyd i geisio cydweithio gyda'r ysgolion a mudiadau lleol ac ystyried pa brosiectau a gellid ei gynnwys wrth wneud y cynllun gwelliannau'r mynwentydd.**

iv) Gohebiaeth
a) Fferm Wynt Gaerwen.
i) E-byst gan drigolion lleol a'r bwriad i gael diwrnod agored ar y 2/12/22.
**a) Mynegwyd siom y cynghorwyr i'r diffyg gwybodaeth a dderbyniwyd gan RWE - roedd y clerc wedi cysylltu â nhw eisoes i fynegi hyn.**
**b) Darllenwyd e-byst a dderbyniwyd gan y trigolion lleol a'i siom fod y Cyngor heb rannu gwybodaeth gyda hwy a'r effaith y byddai cynllun fel hyn yn cael ar yr ardal. Yn anffodus er i'r Cyngor cael cysylltiad â RWE roeddynt wedi crybwyll bob tro fod dim manylion o'r cynllun ar gael a dyddiau cynnar oedd hi. Roedd wedi dod i'r amlwg fod gwybodaeth ar gael ar y we ers 2021.**
**c) Roedd un o'r trigolion wedi gofyn a oedd lluniau wedi cael eu paratoi a fyddai'n dangos maint y tyrbinnau a sut y byddant yn edrych am ei safle. Roedd y clerc wedi gofyn hyn i RWE ac roeddynt wedi ymateb a dweud fod hi'n rhy gynnar yn y cynllun i'r math yma o luniau gael ei wneud.**
**ch) Roedd y clerc wedi trafod cael cyfarfod gyda RWE a fyddai'n agored i'r cyhoedd fynegi barn. Gan fod gan RWE fwriad i gynnal diwrnod agored yn Llandrillo cytunwyd i gynnal un yn Llandderfel hefyd ar yr 2il o Ragfyr rhwng 3y.p a 7 y.h. gyda chyfarfod cyhoeddus o dan ofal y Cyngor Cymuned rhwng 7-8y.h. Bydd cyfieithydd ar gael ar y noson. Trafodwyd a chytunwyd ar agenda ar gyfer y cyfarfod a byddai Maldwyn Jones yn ei gadeirio. Byddai'r wybodaeth a fyddai'n cael ei arddangos yn y diwrnod agored ar gael ar y we o'r 15fed o Dachwedd. Dosbarthwyd posteri i'r cynghorwyr arddangos yn y neuaddau a'r unrhyw fan priodol arall.**
**d) Roedd y clerc wedi paratoi datganiad i'w ddosbarthu i'r trigolion lleol ac wedi e-bostio'r neuaddau a mudiadau lleol yn gofyn iddynt i'w rannu gyda'u cysylltiadau lleol. Roedd opsiwn iddynt arwyddo fyny i gael unrhyw ddiweddariadau drwy e-bost. Bydd croeso i unrhyw un yrru eu sylwadau am y cynllun hefyd er mwyn i rhain cael ei ystyried pan fydd angen i'r Cyngor drafod y cais terfynol.**

b) Cyngor Gwynedd.
i) Gwaharddiadau traffig dros dro – amrywiol.
ii) Adran Gwarchod y Cyhoedd - Ffliw Adar a Cheidwaid Dofednod Lleol

c) Amrywiol.
i) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – adroddiad blynyddol drafft.
ii) Comisiwn Ffiniau i Gymru - cynigion diwygiedig ar gyfer etholaethau seneddol newydd Cymru.
iii) GIG Cymru - Nodyn briffio1, cynnig datblygu gwasanaeth
iv) Llywodraeth Cymru - Ymgynghoriad Etholiadau.

v) Ceisiadau Cynllunio

a) C22/0970/04/DT - Trosi rhan o ysgubor bresennol i ffurfio llety preswyl atodol i'r eiddo presennol. Cwm Cottage, Bethel.
**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol.**

## vi) Materion Ariannol

a) Archwiliad allanol - **Derbyniwyd yr Adroddiad yn nol gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir ac nid oedd unrhyw fater yn codi o'r archwiliad. Cytunwyd i'w gymeradwyo. Cafwyd cadarnhad gan y Clerc ei bod wedi arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' yn y mannau perthnasol.**
b) Taliadau – Deiniol Davies (gwaith ym mynwent Frongoch) & Paul Addlington (giatiau mynwent Llandderfel) **Cymeradwywyd.**
c) Ceisiadau ariannol - Neuadd Bro Derfel (cyfraniad tuag at focs newydd i'r diffib) ac Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru Sir Gaerfyrddin 2023. **Cadw cais yr Urdd tan fis Mawrth. Y clerc i weld os oedd grantiau ar gael i brynu cabinet os ddim cynnig i'r neuadd cael ei chyfraniad blynyddol rŵan yn hytrach na mis Mawrth.**

## vii) Materion lleol.

a) **Cytunwyd i anfon y cwynion a'r cais am arwydd toiledau i Landderfel ymlaen i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH RHAGFYR 6ED YN NEUADD SARNAU.**